# Y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Adroddiad Blynyddol 2024-25

### Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfra
onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfra
onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 5
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2024/25 ..... 5
2.1 Rôl Craffu ..... 5
2.2 Y Blaengynllun Gwaith ..... 6
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ..... 7
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ..... 7
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24 ..... 7
2.4.2 Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2025/26 ..... 8
2.4.3 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24 8
2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ..... 8
2.4.5 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau ..... 9
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ..... 9
2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb ..... 9
2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28 ..... 10
2.6 Iechyd a Gofal Cymdeithasol ..... 10
2.6.1 Taliadau Uniongyrchol ..... 10
2.6.2 Adroddiad Perfformiad yn erbyn y Camau Gweithredu a'r Mesurau sy'n berthnasol i Weledigaeth y Cabinet. ..... 10
2.6.3 Polisi Codi Tâl – Newidiadau i'r Polisi Codi Tâl Gofal Cymdeithasol Presennol ..... 11
2.6.4 Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref ..... 11
2.6.5 Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin ..... 11
2.6.6 Adroddiad Interim ar Weithredu'r Strategaeth Dementia a Datganiad Safbwynt ynghylch Gofal Dementia yn Sir Gaerfyrddin ..... 12
2.6.7 Adroddiad Blynyddol Llesiant Delta ..... 12
2.6.8 Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2023/24 a 2024/25 ..... 12
2.6.9 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-2024 ..... 12
2.7 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ..... 13
2.7.1 Diweddariadau Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ..... 13
2.7.2 Diweddariad ar y Strategaeth Cymorth Cynnar ..... 13
2.7.3 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol 2024/25 ..... 14
3. Gweithgarwch Craffu Arall ..... 14
3.1 Gorchwyl a Gorffen ..... 14
3.2 Ymweliadau Safle ..... 14
3.3 Sesiynau Datblygu ..... 14
4. Effaith ..... 15
3.1 Sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ..... 15
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd ..... 16

6. Heriau ........................................................................................................ 16
7. Gwaith yn y Dyfodol ........................................................................................ 17
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ......................................................................... 17
9. Presenoldeb ................................................................................................... 19

## Rhagair gan y Cadeirydd



A ninnau ar ddiwedd Blwyddyn y Cyngor arall, mae'n bleser gennyf fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd unwaith eto gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2024-2025, gan roi trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd gan aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal rhag-gyfarfodydd, a hynny ddiwrnod cyn y cyfarfod ffurfiol fel arfer, ac mae'r aelodau'n ystyried hyn yn amhrisiadwy gan eu galluogi i gael dealltwriaeth drylwyr o'r materion cyn craffu yn fanwl ar eitemau'r agenda yn ystod y cyfarfod ei hun.

Mae pob aelod o'r pwyllgor yn cael cyfle i gyfrannu at Flaengynllun Gwaith y cytunwyd arno sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac ychwanegir eitemau yn ôl yr angen. Mewn ymgynghoriad â swyddogion, mae adolygu a monitro'r Blaengynllun Gwaith wedi dod yn agwedd bwysig ar gylch gwaith y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr ystod eang o feysydd darparu gwasanaethau a gyflwynwyd ac a ystyriwyd yn briodol yn ystod y flwyddyn ynghyd â monitro cyllidebau a pherfformiad, trefniadau sicrhau ansawdd ac, yn hollbwysig, diweddariadau cynnydd ar faterion allweddol megis cyd-fynd ac integreiddio â maes Iechyd a'r camau gweithredu trawsnewidiol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â sefyllfa cyllideb y Gwasanaethau Plant.

Rwyf i, ac aelodau'r pwyllgor yn cydnabod bod y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol tu hwnt drwy'r amser, gan wynebu'r hyn a ddisgrifir yn aml fel y "storm berffaith" o angen cynyddol, prinder staff, anawsterau recriwtio yn ogystal â wynebu costau mawr a godir gan rai o ddarparwyr y sector preifat sy'n gweithio mewn marchnad genedlaethol ddiffygiol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant i gyd yn pwysleisio'r angen am fwy o gydweithio â phartneriaid a'n cymunedau wrth ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i fynd i'r afael â'r angen cynyddol. Felly, mae'r pwyllgor wedi ymdrechu i sicrhau bod adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y nodau cydweithredol hyn yn cael eu cyflwyno a bod y pwyllgor yn craffu arnynt. Bydd y maes hwn yn destun craffu manwl yn ystod 2025/2026 drwy gyfres o sesiynau datblygu.

Hoffwn estyn fy niolch diffuant i'r Cynghorydd Tremlett, Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r holl Swyddogion sydd wedi bod yn bresennol, ac sydd wedi darparu esboniadau, cyngor arbenigol a mewnbwn cyffredinol yn ein cyfarfodydd Craffu drwy gydol y flwyddyn.  Diolch yn arbennig i'n Swyddog Cymorth Democrataidd gwerthfawr, Emma Bryer, am ei harweiniad proffesiynol a'i chefnogaeth gyffredinol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn rhedeg yn hwylus.

Yn olaf, nid gor-ddweud yw nodi ei bod yn gyfnod heriol dros ben i bawb sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd. Fel pwyllgor, hoffem ddiolch i’r holl staff am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u gwaith caled diflino wrth geisio sicrhau bod popeth

posibl yn cael ei wneud i ddarparu'r gofal mwyaf priodol i'r rhai y mae ei angen arnynt ac y mae ganddynt hawl iddo.

Diolch yn fawr i chi gyd.

**Y Cynghorydd Gareth John**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gareth John ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

# 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2024/25

## 2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd cylchoedd gwaith y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol fel y nodir isod:-

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | Heneiddio'n dda |
| Gofal Preswyl gan gynnwys cartrefi preswyl mewnol | Asesu a Rheoli Gofal |
| Gofal Cartref gan gynnwys gofal cartref mewnol a gwasanaethau ailalluogi | Pobl Hŷn ac eiddilwch |
| Anableddau Dysgu | Gwasanaethau Integredig gan gynnwys cyswllt â'r GIG a chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol |
| Iechyd Meddwl | Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau |
| Taliadau Uniongyrchol | Aelod o'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| Gofalwyr | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Gofal Dementia | Arweinydd Rhianta Corfforaethol |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | Gwasanaethau Cymorth Cymunedol |
| Diogelu Oedolion | Gwasanaethau Maethu |
| Gwasanaethau Mabwysiadu | Seibiant |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | Strategaeth Atal |
| Comisiynydd Pobl Hŷn | Cefnogi Teuluoedd |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | Diogelu Plant |
| Y Blynyddoedd Cynnar, Cymorth i Deuluoedd ac Atal | Anghenion Cymhleth a Phontio |
| Rhianta a Lles Plant | Cydgysylltydd Amddiffyn Plant |
| Diogelu (Gorllewin y Sir) a Mabwysiadu | Diogelu (Dwyrain y Sir) a Gwella Gwasanaethau |
| Hyrwyddwr Ystyried Pobl Hŷn | Diogelu Corfforaethol |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith er y cafwyd 13 o achosion o beidio â chyflwyno adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos er mwyn ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 7 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith, ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24

Ym mis Hydref 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran 13 Amcan Llesiant y Cyngor, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y pedwar Amcan Llesiant sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, sef:

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1** | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda) |
| **Amcan Llesiant 2** | Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) |
| **Amcan Llesiant 3** | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) |
| **Amcan Llesiant 4** | Ein Cyngor: Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon. Oes unrhyw un ar ei ennill? |

**Canlyniad:**

- Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o'r cynllun atgyfeirio i wneud ymarfer corff (NERS), a chafodd y Pwyllgor y wybodaeth hon ym mis Hydref.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddata cymaradwy ynghylch gofal cartref mewn cartrefi gofal ac ar gyfer preswylwyr yn eu cartrefi eu hunain. Cafodd hwn ei ddosbarthu i'r Pwyllgor ym mis Hydref.

### 2.4.2 Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2025/26

Ym mis Chwefror 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Busnes Gwasanaethau Is-adrannol drafft sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ac Addysg a Phlant ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau Integredig
- Comisiynu a Chymorth Busnes
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.  Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr Is-adran a gwneud sylwadau yn eu cylch.

**Canlyniad:**

Adolygodd y Pwyllgor y camau a'r mesurau arfaethedig a phenderfynodd yn unfrydol fod y cynlluniau busnes yn cael eu derbyn.

### 2.4.3 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24

Yn unol â'r gofyniad statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu adroddiad blynyddol ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad a chynlluniau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.  Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2024.

**Canlyniad:**

Gofynnwyd bod rhagor o wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad am waith Llesiant Delta o ystyried ei rôl sylweddol yn yr Awdurdod.

### 2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Roedd yr adroddiadau hyn yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod.  Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.  Dosbarthwyd yr adroddiadau i'r aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2024/25
- Chwefror 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2024/25
- Mawrth 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2024/25

#### 2.4.5 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Hydref, mis Chwefror a mis Ebrill a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2024.
- Hydref 2024 – Adroddiad Alldro 2023/24 ar y sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn.
- Tachwedd 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst 2024.
- Chwefror 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2024.
- Mawrth 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024.
- Ebrill 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 28 Chwefror 2025.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

**Canlyniad:**

Mynegodd y Pwyllgor bryderon drwy gydol y flwyddyn ynglŷn ag amseroldeb adroddiadau monitro cyllideb gan fod y data wedi dyddio erbyn iddo gael ei dderbyn gan y Pwyllgor. Gofynnwyd i swyddogion ystyried adolygu amseriad a fformat adroddiadau monitro cyllideb. Hyd yn hyn nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran datrys y mater hwn.

**Hydref 2024** – gofynnodd y Pwyllgor a ellid cynnwys cyfeiriad at yr adroddiad Gorchwyl a Gorffen diweddar ar ordewdra (Dechrau Egnïol ac Iach) yn yr adroddiad.
**Tachwedd 2024** – gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am gyllid y Swyddfa Gartref a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer plant digwmni sy'n ceisio lloches. Cafodd y pwyllgor y wybodaeth hon ym mis Chwefror 2025.
- Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am y costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â Chomisiynu a Gwaith Cymdeithasol o fewn plant a theuluoedd (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd y wybodaeth hon wedi dod i law).
- Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y gronfa gofal cartref gwerth £327k ar gyfer prosiectau amrywiol. Rhoddwyd y wybodaeth hon i'r aelodau ym mis Ionawr 2025.
**Chwefror 2025** – Gofynnwyd cwestiynau am y galw a chymhlethdod achosion iechyd meddwl. Cafodd yr Aelodau gyflwyniad yn dilyn y cyfarfod.
**Mawrth 2025 –** derbyniwyd yr adroddiad.

**Ebrill 2025** – derbyniwyd yr adroddiad.

### 2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 i 2027/28 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026/2027 a 2027/28.

**Canlyniad:**

Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth gan wneud sylwadau ar yr adroddiad a'i dderbyn.

## 2.6 Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### 2.6.1 Taliadau Uniongyrchol

Ym mis Gorffennaf 2024 adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad Taliadau Uniongyrchol yr oedd wedi gofyn amdano o'r blaen.  Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin ac yn nodi'r cynnydd a wnaed ers i'r swyddogaeth rheoli a chymorth gael ei throsglwyddo i'r Awdurdod.

**Canlyniad:-**

Roedd nifer o gwestiynau ac ymholiadau wedi cael eu mynegi gan y pwyllgor ynglŷn â thaliadau uniongyrchol ac yn dilyn hynny gofynnwyd am yr adroddiad hwn oherwydd pryderon na fyddai taliadau'n cael eu gwario'n briodol o bosib.

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol dderbyn yr adroddiad.

### 2.6.2 Adroddiad Perfformiad yn erbyn y Camau Gweithredu a'r Mesurau sy'n berthnasol i Weledigaeth y Cabinet.

Craffodd y Pwyllgor ar yr adroddiad perfformiad yn erbyn y Camau Gweithredu a'r Mesurau a oedd yn manylu ar gynnydd y rhai a gyflawnwyd ar gyfer Gweledigaeth y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Roedd disgwyl i'r adroddiadau gael eu hystyried bob chwarter ond, ar gais swyddogion, tynnwyd yr adroddiad o'r cynllun gan fod y wybodaeth hefyd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad perfformiad a oedd yn cael ei ystyried gan y pwyllgor craffu ddwywaith y flwyddyn.

**Canlyniad:**

– Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am gaffael a datblygu'r cartref yn Llanelli. Rhoddwyd y wybodaeth hon i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2025.

- Gofynnwyd am esboniad ynghylch sut a pham roedd nifer y plant ar y gofrestr o blant sy'n wynebu risg wedi lleihau.  Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ym mis Chwefror 2025.
- Gofynnodd y pwyllgor faint o fabwysiadwyr oedd bellach yn eu lle ar ôl recriwtio'r Swyddog Recriwtio - Marchnata.  Rhoddwyd y wybodaeth ym mis Chwefror 2025.
- Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed ar y cyd â Maethu Cymru i gynyddu nifer y gofalwyr maeth a gwella'r broses o'u recriwtio a'u cadw.  Cafodd y pwyllgor y wybodaeth hon ym mis Chwefror 2025.

### 2.6.3 Polisi Codi Tâl – Newidiadau i'r Polisi Codi Tâl Gofal Cymdeithasol Presennol

Ym mis Hydref 2024 bu'r Pwyllgor yn ystyried y newidiadau arfaethedig i'r Polisi Codi Tâl Gofal Cymdeithasol.

Nododd y Pwyllgor y byddai ffi flynyddol o £520 ynghyd â ffi ychwanegol o £100 ar gyfer atgyfeiriadau newydd.

**<u>Canlyniad:</u>**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

### 2.6.4 Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref

Ym mis Tachwedd 2024 (diweddariad 5) ac Ebrill 2025 (diweddariad 6) craffodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad Diweddaru ar Berfformiad Gofal Cartref yr oedd wedi gofyn amdano o'r blaen. Roedd yr adroddiadau yn cynnwys y data diweddaraf oedd ar gael a gasglwyd ar gyfer Chwarter 1 a Chwarter 2 2024/25 a Chwarter 3 a Chwarter 4 2024/25.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Tachwedd** - Cyfeiriodd y Pwyllgor at bryderon o fewn fferyllfeydd cymunedol ynghylch lefel y cyllid a oedd yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau cymunedol. Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig am wybodaeth ychwanegol i'w galluogi i asesu a fyddai hyn yn cael effaith ar wasanaethau'r Cyngor.
**Ebrill –** Penderfynodd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn ac y byddai adroddiadau'n cael eu llunio ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol.

### 2.6.5 Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Ym mis Tachwedd 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano ynghylch y sefyllfa bresennol yn ymwneud â datblygu'r Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Nododd y Pwyllgor nad oedd strategaeth atal ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Sir Gaerfyrddin nac ar gyfer Rhanbarth Hywel Dda a'r adroddiad agosaf o natur debyg oedd 'Atal, Ymyrraeth Gynnar, Hyrwyddo Byw'n Annibynnol Sir Gaerfyrddin: Cymuned Gydnerth' a ddatblygwyd yn 2016.

Felly, cydnabuwyd bod angen strategaeth atal a oedd yn ystyried y sefyllfa bresennol ac yn nodi'r weledigaeth atal ar gyfer y dyfodol.

**Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

### 2.6.6 Adroddiad Interim ar Weithredu'r Strategaeth Dementia a Datganiad Safbwynt ynghylch Gofal Dementia yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad interim ar weithredu'r Strategaeth Dementia ynghyd â Datganiad Sefyllfa ynghylch Gofal Dementia yn Sir Gaerfyrddin.

**Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol gymeradwyo'r ffocws strategol arfaethedig ar gyfer dyfodol gwaith dementia yn Sir Gaerfyrddin.

### 2.6.7 Adroddiad Blynyddol Llesiant Delta

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol 2023/24 ar gyfer Llesiant Delta

**Canlyniad:**

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Llesiant Delta ar gyfer 2023/24.

### 2.6.8 Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2023/24 a 2024/25

Ym mis Mawrth 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am rôl, swyddogaethau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

### 2.6.9 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-2024

Ym mis Mawrth 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd a oedd wedi'i wneud mewn perthynas â'r canlyniadau a osodwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'r Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

**Canlyniad:**

Gofynnodd y Pwyllgor am ddata am Sir Gaerfyrddin yn unig a gofynnodd fod pryderon ynglŷn â chostau cwnsler adolygiad barnwrol yn cael eu mynegi yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## 2.7 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

### 2.7.1 Diweddariadau Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Ym mis Mehefin 2024 adolygodd y Pwyllgor Raglen Drawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Diweddariad 1 yr oedd wedi gofyn amdano yn dilyn pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol yn y Gwasanaethau Plant.

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r diweddariad cyntaf ar gynnydd Cynllun Trawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gafodd ei ddatblygu i reoli galw yn y dyfodol a sicrhau cyllideb gytbwys. Roedd yr adroddiad yn nodi cynnydd y rhaglen drawsnewid hyd yma a'r uchelgais dros y pedair blynedd nesaf.

Ym mis Hydref 2024, adolygodd y pwyllgor y diweddariad diweddaraf a nododd fod y gwasanaeth wedi datblygu gweledigaeth ac egwyddorion sy'n ofynnol ar gyfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol modern i blant.

Ym mis Ebrill 2025, adolygodd y pwyllgor y diweddariad diweddaraf a nododd fod y gwasanaeth wedi adolygu'r ffrydiau gwaith i adlewyrchu'r angen i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth y cynllun. Y meysydd ffocws allweddol oedd rhoi'r cynnig ar gyfer cartrefi plant ar waith, nodi tir ar gyfer adeiladu cartref plant newydd, recriwtio ar gyfer y swyddi gwag oedd yn weddill a chomisiynu amrywiaeth o lety â chymorth i bobl ifanc.

**Canlyniad:**

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a gofynnodd am gael adroddiadau diweddaru rheolaidd am gynnydd ym mlwyddyn y cyngor 2025/26.

### 2.7.2 Diweddariad ar y Strategaeth Cymorth Cynnar

Ym mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar ddatblygu'r 'Strategaeth Cymorth Cynnar' ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a oedd yn nodi sut roedd Sir Gaerfyrddin yn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn Cymorth Cynnar hygyrch, cydgysylltiedig pan fo angen. Gofynnwyd am yr adroddiadau hyn yn dilyn cais ym mis Tachwedd 2023 gan Ymddiriedolaeth WAVE yn gofyn i'r Pwyllgor edrych

- a oedd unrhyw fylchau yn y darpariaethau presennol oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin yn ymwneud â chymorth cyn-genhedlu a blynyddoedd cynnar.
- a oedd unrhyw fylchau yn y darpariaethau presennol oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin o ran gwasanaethau rheng flaen megis tai, refeniw a budd-daliadau a gwasanaethau cysylltiedig fel y Ganolfan Byd Gwaith ynghylch gweithredu arferion ymwybodol o drawma a/neu ddulliau ymwybodol o drawma.

**Canlyniad:**

Cytunodd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

### 2.7.3 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol 2024/25

Ym mis Chwefror 2025, bu'r Pwyllgor yn gwerthuso Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yr Awdurdod ar gyfer 2024/25. Roedd y Cynllun yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli, a oedd yn darparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid hefyd yn manylu ar berfformiad y bartneriaeth yn ystod 2023/2024, a hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion cynllunio gwelliannau, yn unol â'r egwyddorion 'plentyn yn gyntaf' cyffredinol ac ethos o welliant parhaus.

**Canlyniad:**

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac awgrymodd y byddai'r ffigurau a roddwyd ynglŷn â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn rhoi mwy o wybodaeth pe baent yn cynnwys data cymharu cenedlaethol.

# 3. Gweithgarwch Craffu Arall

## 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni chynhaliodd y Pwyllgor adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod blwyddyn y cyngor oherwydd yr adolygiad parhaus o'r adroddiad 'Dechrau Egnïol ac Iach' gan y tîm Rheoli Corfforaethol a arweiniodd at oedi cyn cymeradwyo'r adroddiad terfynol gan y Cabinet.

## 3.2 Ymweliadau Safle

Nid oedd y Pwyllgor wedi cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod 2024/2025.

## 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 22/05/2024 | Cyflwyniad i Waith Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin |
| 14/06/2024 | Cyflwyniad i Thinqi – System Rheoli Dysgu Newydd |
| 10/07/2024 | Gosod Arwyneb Newydd ar Briffyrdd a Chynnal a Chadw Priffyrdd |
| 25/07/2024 | Cytundebau Adran 106 |
| 11/09/2024 | Diogelu'r Amgylchedd - Safonau Bwyd ac Iechyd y Cyhoedd |
| 26/09/2024 | Diogelu Corfforaethol |
| 09/10/2024 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bentre Awel |

| | |
|---|---|
| 21/10/2024 | Trafnidiaeth Cymru – Cyfarfod Briffio Masnachfreinio Bysiau – Blaenoriaethau allweddol |
| 29/10/2024 a 30/10 | Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia |
| 12/11/2024 | Meithrin Seibergadernid: Diogelu Dyfodol Digidol Ein Cyngor |
| 20/11/2024 | Paratoi ar gyfer y Gaeaf |
| 10/12/2024 | Rôl a Phrif Ddyletswyddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 11/12/2024 | Diweddariad Blynyddol gan y Prif Swyddog Tân |
| 29/01/2025 | Rheoli Maethynnau – Canllawiau a Heriau Cenedlaethol |
| 05/02/2025 | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| 12/02/2025 | Swyddogion Etholedig – Sesiwn Briffio ynghylch Diogelwch Personol |
| 12/02/2025 | Datblygiad Un Blaned |
| 18/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Sesiwn 1 |
| 24/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Sesiwn 2 |
| 09/04/2025 | Digwyddiad Galw Heibio y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| 09/04/2025 | System Rheoli Dysgu Thinqi - Digwyddiad galw heibio |
| 07/05/2025 | Hyfforddiant Gloywi ar Gôd Ymddygiad yr Aelodau |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, aeth yr aelodau i sawl seminar ar y gyllideb a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2025-26 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd. Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol hefyd:

| **Dyddiad** | **Sesiwn Datblygu / Seminar** |
|---|---|
| 13/06/24 | Iechyd Meddwl gan gynnwys Hunanladdiad a Hunan-niwedio |
| 03/02/25 | Iechyd Meddwl a Llesiant |
| 30/04/25 | Blaengynllun |

# 4. Effaith

## 3.1 Sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r Cabinet ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol”. Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod

polisïau’r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae’r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau’r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, mae'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Darparu sylwadau ac arsylwadau i lywio strategaethau a pholisïau.
- Sicrhau bod gwaith y Cyngor yn agored ac yn dryloyw.
- Drwy ymgymryd â'i rôl porthgadw wrth fonitro gwaith y Cabinet a sicrhau bod y materion cyllidebol yn cael sylw ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2024/25, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Roedd Cymunedau a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor oherwydd y galw am wasanaethau a phwysau cyllidebol.

Serch hynny, mae'r adrannau wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adran ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisïau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi ei chael hi'n anodd cyflawni'i rôl monitro cyllideb yn effeithiol oherwydd amseroldeb y data a gyflwynwyd ac mae wedi gofyn bod data mwy cyfredol yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn cynllunio datblygu ar 30 Ebrill a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Is-adran y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Adran y Prif Weithredwr. Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;

- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o saith cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor.

| Aelod o'r Pwyllgor | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bryan Davies | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Crish Davies | 6 | 86% |
| Y Cynghorydd Karen Davies | 6 | 86% |
| Y Cynghorydd Michelle Donoghue | 6 | 86% |
| Y Cynghorydd Alex Evans | 6 | 86% |
| Y Cynghorydd Meinir James | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Gareth John | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Hefin Jones | 3 | 43% |
| Y Cynghorydd Denise Owen | 6 | 86% |
| Y Cynghorydd Louvain Roberts | 3 | 43% |
| Y Cynghorydd Fiona Walters | 5 | 71% |
| Y Cynghorydd Phil Warlow | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Janet Williams | 7 | 100% |
| Y Cynghorydd Steve Williams | 6 | 86% |

| Dirprwyon | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 1 |
| Y Cynghorydd Tyssul Evans | 1 |
| Y Cynghorydd Terry Davies | 1 |
| **Aelod Cabinet** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** |
| Y Cynghorydd Jane Tremlett (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) | 5 |
| Y Cynghorydd Alun Lenny (Adnoddau) | 3 |